# Y BIGWN

CYF. 33 RHIF 10 Chwefror 2022 *Papur Bro Dinbych* *Pris £1*

# SYMUD YMLAEN yn 2022



Tai newydd wrth Eglwys Dewi Sant



Estyniad i'r Ystad Ddiwydiannol



"Penblwydd hapus i Hari Gruffydd Jones, Caerdydd a oedd yn 8 oed ar 31 Ionawr gan Nain a Taid Dinbych (John Geraint ac Eiri) ac Anti Nia ac Yncl Sam ac Elen."



Penblwydd hapus iawn i Elen Wyn fydd yn dathlu ei phenblwydd yn 3 oed ar 19 Chwefror!
Cariad mawr gan Mam a Dad a'r teulu i gyd xx

## Uned dan 5 Ysgol Twm o'r Nant - hanes tudalen 17



# Gair gan y Golygydd

Wel, mi gawsom bapur a hanner y mis diwethaf – yn llawn newyddion mewn adeg go brysur yn y flwyddyn. Dyma ni bellach yn y mis llwm hwnnw gyda newyddion y teledu a’r papurau yn tueddu i fod braidd yn ddiflas, a storiau da yn brin ar yr union adeg pan y mae angen rhywbeth i godi calon pawb. Gobeithio felly y cewch rywbeth i ateb y diben yn y tudalennau sy’n dilyn.

Sylwaf, ag nid peth newydd yw hyn,mai ar wahan i’r newyddion byd-eang, hanes Lloegr – yn llawen neu ‘n ddiflas – a gawn ar brif fwletin newyddion y teledu gan ei alw’n newyddion Prydain gyfan.
Beth amser yn ol yn hanes helynt y feirws Covid ‘roedd hyn yn achos cryn ddryswch. Gan fod Cymru eisoes wedi dewis dilyn ei ffordd ei hun ynglyn a’r gwahanol gynghorion a gorchmynion am fywyd cymdeithasol, nid pawb oedd wedi sylweddoli ein bod yn wahanol, a deuai pobl o Loegr i Gymru gan feddwl nad oedd wahaniaeth rhwng y ddwy wlad, yn enwedig o ran yr angen i wisgo mwgwd.

Erbyn hyn, mae popeth rywfaint yn gliriach a datganiadau ein prif weinidog yn dangos ei waith da wrth droedio’i ffordd ei hun gan ddilyn y cyngor meddygol a nid y cyngor masnachol er y cwynion ddaeth yn sgil hynny.

GAIR ARALL GAN Y GOLYGYDD

Daeth y llyfr ffon newydd at fy nrws ddoe - mae'n siwr bod pawb wedi cael copi hefyd, a chwarae teg i'r hen B.T. - mae'r cyfarchiad - Bore Da - yn amlwg ar y clawr mewn llythrennau mawr iawn. Dyna'r pwt o longyfarchiad a ysgrifenais wrth weld y llyfr.

Ond, ond ond, ar ol agor clawr y llyfr gwelaf rywbeth hollol wahanol a rhaid mynnu'r ganmoliaeth yn ei ol. Darllenwn bod B.T. yn brolio eu bod yn dathlu eu defnydd o dafodieithoedd ag acenion dros Brydain oll bellach ag y mae eu defnydd o Bore Da yn engraifft o hyn yn eu tyb nhw. Sut ar y ddaear y mae'n nhw wedi methu syweddoli mai iaith arall, gwbl wahanol sydd yma. Gobeithio y daw llu o gwynion.

Ceredig

## RHESTR Y SWYDDOGION

CADEIRYDD
Stan Lyall 813659

SWYDDOG HYSBYSEBION
Nerys Ann Roberts
01745 814950

GOLYGYDDION:
Erfyl Williams (814832)
Ceredig Gwynn (815701)
Angharad Rhys (813259)
Dyfrig Berry (814362)
Morgan Cordiner (813387)
Martha Cordiner (813387)

YSGRIFENNYDD
Sian Rogers
siani77.sr@gmail.com

TRYSORYDD
Llifion Jones
Sŏn y Nant, 31 Y Maes,
Dinbych
LL16 3JR
llifionjones9@gmail.com

CARTWNYDD
Huw Vaughan Jones

DOSBARTHWYR
Llifon Jones (814677)
Dafydd Williams (813065)

TEIPYDDION:
Rhian Williams (816251)
Gwenan Ellis (813106)

Ebost y Bigwn:
gwybod@ybigwn.cymru

Cyhoeddwyd gan:
Gymdeithas y Bigwn
Cysodwyd gan Hywel Evans
hywel@hywel1310.plus.com

ac Argraffwyd gan
Wasg Helygain

## Egwlys Unedig Y Fron a’r Brwcws

Wrth bod y covid yn lledaenu mor fuan, ar y zoom fu oedfa bob Sul ers cyn y Nadolig dan ofal ein Gweinidog Y Parch Andras Iago. Yr ydym yn hyderus y byddwn yn gallu cyfarfod gydag aelodau wyneb yn wyneb mis Chwefror ac hefyd y byddwn yn croesawu aelodau Capel Y Brwcws sydd wedi dymuno i ddod atom wedi iddynt yn anorfod gau’r Capel.

Yr ydym yn anfon ein cofion at aelodau sydd wedi treulio amser yn yr Ysbyty. Dyna oedd hanes Mrs Alwen Jones ac y mae Mrs Megan Williams wedi cael codwm yn ddiweddar. Erbyn rwan mae Mrs Jois Snelson wedi cael llawdriniaeth yn Ysbyty Walton ac yr ydym yn anfon ein dymuniadau gorau i chi ar gyfer 2022. Y mae rhai o’r aelodau wedi cyfarfod a phrofedigaaeth ac yr ydym yn meddwl am Mrs Beryl Jones a Mrs Wendy Jones yn eu galar o golli rhai annwyl ac agos.

'Ariennir yn rhannol gan Lywodraeth Cymru'

CYMRAEG

**Golygydd Mis Mawrty: Martha Cordiner**

**Dyddiad cau'r BIGWN, mis Mawrth**
**Pob dim i fod yn cyrraedd e-bost Y Bigwn - ybigwn@hotmail.co.uk erbyn Chwefror 18**

sir ddinbych denbighshire County Council
CYMRAEG

Yn gweithio i
gryfhau’r Gymraeg yn ein cymunedau, drwy annog mwy o ddefnydd o’r iaith yn ein bywyd bob dydd.

Menter Iaith Sir Ddinbych
01745 812822
menter@MISirDdinbych.cymru
Menter Iaith Sir Ddinbych // @MIDinbych

# Llyfrau Llafar Cymru

Yn ystod misoedd olaf 2021, hysbyswyd Pwyllgor Llyfrau Llafar Cymru gan Sulwyn Thomas, ei fod yn dymuno ymddiswyddo fel Cadeirydd ar ddiwedd y flwyddyn. Yn anfoddog iawn y derbyniodd y pwyllgor ei benderfyniad gan iddo fod yn gadeirydd gweithgar a brwdfrydig ers 2010. Ond mae ei gyfraniad cyson a diflino yn ymestyn yn ôl ymhellach na hynny i ddyddiau'r Cynllun Casetiau Cymraeg i'r Deillion. Yn sgil ei holl gysylltiadau a chynifer o bobl led-led Cymru a thu hwnt i Glawdd Offa llwyddodd i ennyn llawer o diddordeb a chefnogwyr i'n Gwasanaeth. Rydym yn parchu'i ddymuniad i symud o'r neilltu er mwyn rhoi cyfle i rywun iau i gymryd yr awenau i'n harwain i'r dyfodol heriol sydd o'n blaenau. Dymunwn yn dda iddo a gwyddom y gallwn ddibynnu arno am ei gefnogaeth i'r elusen eto yn y dyfodol. Aelod arall o'r pwyllgor ers tro yw'r Cynghorydd Emlyn Schiavone a thrwy gytundeb unfrydol yr aelodau gwahoddwyd ef i fod yn olynydd i Sulwyn. Cytunodd i dderbyn y swydd gan addo gwneud ei orau i hyrwyddo'r gwaith. Dymunwn yn dda iddo gan wybod y caiff bob cefnogaeth gan ei gyd-aelodau.

Pe baech yn gwybod am unrhyw un a fyddai'n elwa o'n gwasanaeth neu'n dymuno cael rhagor o wybodaeth cysylltwch â Mrs Linda Williams:

Rhif ffôn 01267 238225

Gwefan hpp://www.llyfraullafarcymru.org.uk

Ebost: llyfraullafarcymru@outlook.com

Annwyl Olygydd,

Heb ymroddiad anhygoel ein gwirfoddolwyr, ni fyddai'n bosibl cynnal ein gwasanaeth Childline sydd yno i blant a phobl ifanc bob dydd o'r flwyddyn – ac yn sicr ni fyddai wedi bod yn bosibl hebddynt dros yr ychydig flynyddoedd diwethaf.

Hoffem ddiolch o waelod calon i bob un o'n cwnselwyr gwirfoddol, yn ein canolfannau Childline yng Nghaerdydd a Phrestatyn, sy'n gweithio'n galed i gefnogi a gwrando heb farn ar blant a phobl ifanc am unrhyw beth a allai fod yn eu poeni.

Wrth i ni ddechrau blwyddyn newydd, mae'r galw mor uchel ag erioed ac anaml y bydd ein hangen am wirfoddolwyr newydd yn diflannu. Dyna pam y byddwn yn parhau i geisio cefnogaeth oedolion yn ein cymunedau, sy'n awyddus i gael rôl wirfoddol sydd mor heriol ag y mae'n rhoi boddhad.

Os hoffai eich darllenwyr ddarganfod mwy a gweld a yw rhoi ychydig oriau yr wythnos i fod yno i blant a phobl ifanc yn rhywbeth yr hoffent ymrwymo iddo, gallant fynd i https://www.nspcc.org.uk/ cefnogi-ni/gwirfoddoli-nspcc-childline/volunteer-childline-helpline.

Rydym yn gofyn yn benodol am wirfoddolwyr a all ein helpu i siarad â phlant yn Gymraeg. Gofynnwn i ymgeiswyr llwyddiannus, a fydd yn derbyn pecyn hyfforddi cynhwysfawr, roi o leiaf 4.25 awr yr wythnos fel cwnselydd Childline.

Louise Israel
Rheolwr Tîm Childline
Ffon: 0203 772 9226
Symudol: 07710 143376
nspcc.org.uk

---

Cylchlythyr / Newsletter

Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg

Mae Jeremy Miles AS, Gweinidog y Gymraeg ac Addysg wedi cyhoeddi dogfen ymgynghorol ar y Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Mae'r ddogfen yn cynnwys nifer o bethau y gellir eu gwneud ar lefel gymunedol er mwyn cefnogi a diogelu cymunedau Cymraeg lle mae nifer fawr o ail gartrefi.

Mae Llywodraeth Cymru yn awyddus i glywed eich barn ar y ddogfen, ac i chi rannu'ch syniadau am weithgareddau newydd y gall cael eu datblygu er mwyn sicrhau dyfodol llewyrchus i gymunedau Cymraeg i helpu creu Cynllun Tai Cymunedau Cymraeg gwerth chweil.

Cyfryngau Cymdeithasol / Social Media

Hoffech chi fod pobl yn gallu byw yn y gymuned lle cawsant eu magu ac i'r Gymraeg barhau i ffynnu fel iaith gymunedol? Rho dy farn ar Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg newydd isod.
https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg

Dyma gyfle i rannu eich barn ar Gynllun Tai Cymunedau Cymraeg. Dyma sut mae @LlywodraethCym yn bwriadu sicrhau bod pobl yn gallu byw yn y gymuned lle cawsant eu magu ac i'r Gymraeg barhau i ffynnu fel iaith gymunedol.
https://llyw.cymru/cynllun-tai-cymunedau-cymraeg

Ymatebion erbyn: 22 Chwefror 2022

MEIRION DAVIES A'I GWMNI
01745 812400
Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych
* Dillad a phethau fferm
* Bwyd anifeiliaid anwes
* Esgidiau a.y.b.
* Teganau plant - a llawer rhagor
CROESO!
'Digon i bawb ohonoch
Ydyw lled ein carped coch'
John Glyn Jones

# Gormod o Bwdin Dagith Gi

Gawsoch chi lond bol ar Ŵyliau Cyhoeddus dros gyfnod y Nadolig? Anodd iawn ydy'u galw nhw'n Ŵyliau Banc bellach pan fo yna ond un banc ar ôl yn y dref hon (a llawer tref arall o ran hynny) a hwnnw yn agored am ychydig oriau y dydd yn unig.

Y tro hwn – am fod Dydd Nadolig ar y Sadwrn a Gŵyl San Steffan ar y Sul – fe gawsom ni ddau ddiwrnod ychwanegol o wyliau, sef Dydd Llun, Rhagfyr 27ain, a Dydd Mawrth, Rhagfyr 28ain, er mwyn unioni'r sefyllfa.

Ond, wrth gwrs, roedd Dydd Calan hefyd ar y Sadwrn y tro hwn, ac roedd yn rhaid cael gwyliau ychwanegol ar Ddydd Llun, Ionawr 3ydd, i wneud iawn am y cam unwaith eto.

Felly o fewn cyfnod o ddeng niwrnod fe gawsom ni 6 diwrnod o wyliau cyhoeddus, a wnaeth yna neb gwyno am hynny yn amharu ar yr economi!

Gwae ni pan fo tywydd garw yn achosi trafferthion ar y ffyrdd ac ysgolion yn gorfod cau o'r herwydd. Pryd hynny ceir sawl un yn codi'i lais am effaith hynny ar yr economi.

Rhyfedd o fyd.

Fe wn i fod cyfnod o segurdod fel hyn yn syrffed llwyr i lawer o bobl, ac ni fu tywydd gwlyb y tro hwn fawr o gymorth iddyn nhw. Mae yna ben draw ar faint o deledu fedrwch chi ei wylio neu faint o lyfrau fedrwch chi eu darllen.

Do, fe gawsom ni ambell ddiwrnod braf, a hyfryd oedd gweld rhai yn mentro allan i fynd am dro, tacluso'r ardd neu olchi'r car yn ystod y cyfnod marwaidd hwn.

Gyda llaw, os oeddech chi'n gweld hwn yn gyfnod anodd dylech fod â chydymdeimlad â'n cyfeillion yn yr Alban – roedden nhw yn cael dau ddiwrnod ychwanegol o ŵyliau cyhoeddus i'r hyn roeddem ni'n eu cael rhwng Rhagfyr 25ain a'r pedwerydd o Ionawr!

Mae yna sôn am bedwar diwrnod o wyliau ym Mehefin i ddathlu'r ffaith bod y Frenhines wedi bod ar yr Orsedd am 70 mlynedd. Duw a'n gwaredo.

Ac eto i gyd dydy Llywodraeth San Steffan ddim yn fodlon inni'r Cymry gael diwrnod o ŵyl ar Fawrth y cyntaf i gofio Dewi, ein nawdd sant. Dyna'n rhoi ni yn ein lle unwaith eto, a dim siawns am barti!

Llongyfarchiadau i Gyngor Sir Gwynedd am fod yn ddigon mentrus a rhoi diwrnod o wyliau i'w gweithwyr ar y diwrnod hwnnw.

..........................................................................

Ydach chi wedi sylwi ar hysbyseb sydd wedi'i osod ar yr adeilad a arferid ei alw yn Neuadd yr Eglwys ym Mhwllgrawys?

Arno mewn llythrennau breision mae'r geiriau Zombie Hunt.

Onid ydy o'n ddi-chwaeth ac yn amharchus i osod arwydd o'r fath ar gyn-adeilad eglwysig?

Ydy hyn bron cyn waethed â galw'ch mab bychan yn Lucifer fel y mae gwraig ifanc o Loegr wedi'i wneud?

Stan Lyall

# FRANK Y BERLLAN

Er mai Frank Price Jones oedd ei enw bedydd, fel Frank y Berllan yr adnabyddid ef orau yn Ninbych. Fe'i ganed yn ffermdy bach Y Berllan ar ochr ddwyreiniol Lon Bostws yn fab i Price Jones, un a'i brif alwedigaeth oedd hurio cerbydau i'r cyhoedd, ond hefyd ffermwr a gadwai rhyw ddwsin o wartheg ar gaeau nesaf at Ysgol Howell, gyda'r angen i'w gyrru nol a blaen i'r Berllan ddwy waith y dydd i'w godro.

Yn dilyn addysg yn ysgolion Frongoch, Lyf Lon a'r Ysgol Sirol yn Ninbych, aeth ymlaen i Goleg y Brifysgol ym Mangor gan raddio mewn Hanes. Yna, yn ol ei gred basiffistaidd, cofrestrodd yn wrthwynebydd cydwybodol gan geisio ymuno yn un o'r gwasanaethau amddiffyn ond fe'i gwrthodwyd am resymau meddygol. Am bedair blynedd felly bu'n cynorthwyo'i dad gyda'r busnes dosbarthu llefrith yn y dref. Yn ddigon naturiol, gyda nifer o fechgyn yr ardal wed'u clwyfo neu lladd yn y rhyfel, doedd Frank ddim yn boblogaidd iawn a dioddefodd sawl cyhuddiad niweidiol.

Yn y cyfnod yma, cynhaliodd ddosbarthiadau i'r W.E.A. yn Nyffryn Clwyd a fe fagodd flas at y gwaith; ag o ganlyniad bu'n athro Hanes yn Ysgol Brynhyfryd, Rhuthun am ddwy flynedd cyn mynd yn Ddarlithydd yn adran Efrydiau Allanol yn ei hen goleg. Gyda'i ddiddordeb cynyddol mewn hanes ardal, aeth ati yn 1961 i gyhoeddi Crwydro Dwyrain Dinbych ag yna yn 1969 Crwydro Gorllewin Dinbych – yr hen Sir erbyn hyn, a'r ddwy gyfrol yn rhan o'r gyfres boblogaidd Crwydro Cymru. 'Roedd yn ymchwilydd da – bu'n ysgrifennu hanes Thomas Jones y Diwinydd, ag ef erbyn hyn oedd golygydd Trafodion Hanes Sir Ddinbych. Ei edmygedd o Thomas Gee a'i Wasg anogodd ef i gynhyrchu'r golofn boblogaidd Dyddiadur Daniel yn y Faner.

Trueni garw na chafodd Frank, ag yntau yn ei fedd yn ddim ond 55oed, mo'r cyfle, gyda'i ddoniau amlwg, i ychwanegu at ei gyfraniadau ysgrifenedig er mantais i ni oll.

Y diweddar R.M.(Bobi) Owen

Daniel Morris

CIGYDD LLEOL

01745 812585

info@dmorrisbutchers.co.uk

www.dmorrisbutchers.co.uk

124 Stryd y Dyffryn, Dinbych, LL16 3BS

# Difyrion Digidol

Ydych chi'n gwirfoddoli gyda phapur bro, mudiad, cymdeithas hanes neu Eisteddfod leol ac yn ei chael hi'n anodd i ddygymod gyda thechnoleg? Ydych chi'n gweld technoleg fel rhwystr? Ni ddylai hynny orfod bod. Nid oes raid i chi wirioni efo technoleg, mae technoleg ar gael i wneud bywyd yn haws mewn sawl ffordd. Mae pawb dwi'n siwr wedi hen arfer defnyddio rhaglen prosesydd geiriau fel Word ond dwi am son am rywbeth sydd o bosib am wneud eich bywyd yn llawer haws. Ers blynyddoedd, dwi wedi bod yn cynghori pobl i ddefnyddio naill ai Google Workplace neu wasanaethau Microsoft Outlook ar-lein. Mae'n rhaid imi ddweud fod Google Workplace ac Outlook yn gallu bod yn ddefnyddiol dros ben.

Mi wnai ddechrau gyda Google Workplace. Pan fyddwch wedi creu cyfrif ebost Gmail gyda Google am y tro cyntaf, yr ydych o ganlyniad yn gallu manteisio ar holl wasanaethau Google – sy'n cynnwys apiau dirifedi ar gyfer eich ffôn clyfar, tabled neu gyfrifiadur o flaen desg. Pan fydd ebost wedi ei greu, wrth fynd i brif dudalen Google sef yr enwog www.Google.com , ymhen ucha'r sgrin ar y dde, mae yna 9 dot, cliciwch neu bwyswch arnynt ac fe fydd yn agor ffenest fach arall sy'n aros o fewn Google, fe geir rhestr hir o apiau – dyma ydi'r Google Workplace –apiau sy'n cynnwys Google Maps, Play, Drive, Docs, Sheets, Calendar i enwi dim ond rhai. Mae Google Maps wrth gwrs yn gallu bod yn sat nav amgen defnyddiol pan ydych yn teithio i rywle yn eich car neu'n cerdded. Ond dwi'n hoff iawn o ddefnyddio Google Drive sy'n wagle neu'r 'Cwmwl' ar gyfer cadw dogfennau o bob math, o ddogfennau Word i gyflwyniadau sleid. Gyda Google Docs sydd am ddim, mae'n bosib creu eich dogfen prosesydd geiriau yno – gan ei fod yr un fath a Microsoft Word. Mi fedrwch greu ac arbed dogfen yn yr un lle a'i gadw yno. Mae'n bosib i drosi'r ddogfen yn ddogfen Word ar eich cyfrifiadur. Mae'n ddefnyddiol tu hwnt pan ydych angen cydweithio ar ddogfen – dim mwy o greu degau o fersiynau drafft gwahanol wedi eu atodi ar ebost, sy'n drysu pawb, gellir gweithio ar ddogfen ar y cyd ar yr un pryd, heb golli dim gan ei fod yn arbed yn awtomatig. Os ydi rhywbeth wedi cael ei newid ond eich bod eisiau dychwelyd i fersiwn flaenorol, mae'n bosib gwneud hynny. Dwi'n siwr fod y rhan fwyaf ohonoch yn defnyddio Word i greu dogfennau prosesydd geiriau ers dros 25 mlynedd a mwy, ond mae hyn yn newid y ffordd yr ydym yn gweithio'n llwyr. Ac mae'n bosib i weithio ar ddogfen o bell ar yr un pryd. Mae Google Sheets yr un fath yn union ag Excel ac mae o hefyd am ddim, ac yn berffaith os ydych angen llunio rhestr aelodaeth ar gyfer eich cymdeithas leol er enghraifft. Mae'r ap Google Calendar yn ffordd effeithiol o reoli eich dyddiadur, drwy drefnu cyfarfodydd, galluogi nodyn i'ch atgoffa am unrhyw beth, apwyntiadau a gwahodd eraill i gyfarfod.

Nid Google yn unig sy'n cynnig gwasanaeth fel yma, mae'n bosib manteisio ar wasanaethau tebyg iawn trwy gyfrif ebost Microsoft Outlook (https://outlook.live.com/) ac nid oes raid talu neu gael y fersiwn ddiweddaraf o Microsoft Office ar eich cyfrifiadur, mae o i gyd am ddim ar-lein, o Excel, Powerpoint i Microsoft Word a Calendar a llawer mwy. Er mwyn manteisio ar yr rhain, mae angen logio fewn i'ch ebost Outlook, fe geir 9 dot yn mhen ucha'r sgrin ar y chwith yn nhudalen yr Inbox, cliciwch/pwyswch arnynt ac fe ddaw rhestr o'r apiau i gyd. Mae'r cyfan i gyd ar gael naill ai ar gyfrifiadur o flaen desg, apiau wedi'u llawrlwytho trwy Google PlayStore ar dabled neu ffôn clyfar. Os nad ydych eisiau defnyddio Word oherwydd Microsoft, mae LibreOffice https://www.libreoffice.org/ yn cynnig yr un math o raglen prosesydd geiriau heb orfod defnyddio gwasanaethau'r cwmnïau mawr, sydd yn gwbl dddealladwy.

Ewch amdani i arbrofi, archwilio, creu, cydweithio. Mae'r gwasanaethau hyn yn bendant yn gwneud bywyd yn haws imi, a dwi'n siwr y bydd yn ddefnyddiol i chithau hefyd. Triwch nhw!

Cofiwch gysylltu os hoffech sgwrs am hyfforddiant ac i drafod yr hyn y medrwn ei gynnig, cysylltwch gyda mi ar deian.
apRhisiart@wales.coop






# Gwaith tîm yn sicrhau llwyddiant i Bara Caws yn Ninbych

Mewn digwyddiad llwyddiannus dan ganllawiau caeth Covid-19, mwynhawyd theatr fyw yng Nghlwb Rygbi Dinbych, diolch i ymdrech enfawr gan dîm cyfan o bobl, yn cynnwys aelodau'r cast, criw trefnu Menter Iaith Sir Ddinbych, y clwb rygbi a'r cyhoedd.

"Rhaid talu gwrogaeth i bawb a sicrhaodd bod Bara Caws yn gallu perfformio'n ddiogel," eglurodd Ruth Williams o Fenter Iaith Sir Ddinbych, y sefydliad elusennol sy'n hyrwyddo'r Gymraeg o fewn y sir.

"Roedd hi'n noson hynod lwyddiannus, er gwaetha'r mesurau Covid ychwanegol funud olaf wnaed ac roedd criw Theatr Bara Caws, fel arfer, yn llond bol o hwyl. Roedden ni'n benderfynol o sicrhau bod theatr Gymraeg fyw yn cael dod yn ôl i Sir Ddinbych eto tra ar yr un pryd yn ceisio lleihau'r risg sy'n gysylltiedig â Covid-19. Diolch yn fawr i bawb a gymrodd ran a mynychu i wneud hi'n noson lwyddiannus."

Cefnogwyd y noson trwy gynllun Cyngor Celfyddydau Cymru, Noson Allan, sy'n cefnogi lleoliadau, yn ariannol a thrwy gynghori. Ar gyfer sioe Dawel Nos, roedd y cynllun yn allweddol i godi hyder y Fenter i ddod â theatr fyw yn ôl i'r gymuned wedi'r pandemig. Mae'r cynllun hefyd wedi cydweithio a Menter Iaith i gefnogi grwpiau cymunedol lleol a gwirfoddolwyr i ddeall beth sy'n bosibl, trwy'r cynllun hwn.

I'r actor a'r cyfarwyddwr a fagwyd yn Nyffryn Clwyd, Iwan Charles, roedd cael dod â'r sioe yn ôl i'w filltir sgwâr yn arbennig. Mae'r gŵr sy'n wreiddiol o Lanrhaeadr yng Nghinmeirch wedi mwynhau bod yn rhan o sioe Theatr Bara Caws wrth iddi fynd ar daith ar hyd a lled Gogledd Cymru yn y cyfnod cyn y Nadolig. Dau actor arall o'r fro fu'n rhan o'r cast oedd Llŷr Evans a Carys Gwilym.

"Mae hi bob amser yn wych cael dod adref i berfformio, er ei fod, fel arfer y lle dwi fwyaf nerfus wrth berfformio. I ni fel perfformwyr, mae'n siŵr mae ein teulu a'n ffrindiau yw'n beirniaid mwyaf. Ond dwi bob amser yn cael llond lle o gefnogaeth ac yn falch iawn o'r ymateb rydyn ni'n ei gael yng Nghlwb Rygbi Dinbych.

"Mae'r sioe yn un tafod yn y boch sy'n edrych ar bynciau cyfredol y dydd, yn llawn cymeriadau lliwgar, sy'n defnyddio eironi a doniolwch i ddiddanu. Rydyn ni i gyd wedi mwynhau difyrru cynulleidfaoedd ledled gogledd Cymru. Wedi'r cyfan, rydyn ni'n gwneud yr hyn rydyn ni'n ei garu - perfformio!

Neges debyg oedd gan yr actores, Carys Gwilym, sy'n hanu o Ddinbych: "Mae wastad yn braf dod 'nôl adref ac i'r Clwb Rygbi i berfformio. Mae'r croeso rydyn ni'n ei dderbyn gan gynulleidfa Dyffryn Clwyd yn un gwresog. Mae hi wedi bod yn braf dod â'r cymeriadau lliwgar yma yn fyw a chodi gwen ar wynebau pobl ledled gogledd Cymru. Diolch am y croeso!"

Mae Menter Iaith Sir Ddinbych wastad yn chwilio am gyfleoedd i gefnogi cymunedau lleol i lwyfannu digwyddiadau a gweithgareddau Cymraeg yn eu hardaloedd, boed hynny yn y cnawd neu ar-lein.

"Rydyn ni'n annog unrhyw grwpiau cymunedol sy'n ystyried dod â digwyddiad i'w hardal i gysylltu â ni. Mae'n rhan o'n gwaith i hyrwyddo iaith, diwylliant a threftadaeth Cymru i gynulleidfaoedd ledled Sir Ddinbych, a byddem yn sicr yn croesawu unrhyw gyfleoedd a syniadau.

"Hoffem ddiolch i bawb am eu cefnogaeth i'r Fenter gydol y flwyddyn" meddai Ruth Williams.

Am fwy o wybodaeth am weithio gyda Menter Iaith Sir Ddinbych, cysylltwch â Ruth neu Gwion ar 01745 812822 neu e-bostiwch menter@misirddinbych.cymru



Carys Gwilym



Iwan Charles

# Nid Chwarelwr Ydwyf I – Diwedd Rhan 1

Mae'r Llwybr Llechi sy'n 83 milltir yn mynd â chi ar daith yn ôl i gyfnod mewn hanes pan oedd Eryri yn ganolbwynt i'r diwydiant llechi.
Dyma ddiwedd y daith gyntaf : Bangor i Bethesda 10.2km 6.3milltir (mae cychwyn y daith yn rhifyn Ionawr )
Dyma ddyfyniad o gyfnod y streic am y sefyllfa a'r Arglwydd Penrhyn…….

Mi gewch chi'ch crogi
Am ddwyn dafad oddi ar
Y mynydd
Ond am ddwyn y mynydd
Mi gewch chi'ch gwneud

Meddiannu, meddiannu, meddiannu; Pwy biau ein tir! Oes rhywun yn wir berchen ar dir, neu a ydyw'n ei feddiannu am gyfnod cyn marw a gweld gormodedd, cyfrifoldeb a gorymestyn cyfoeth yn chwalu mewn cenhedlaeth neu ddwy? Achos roedd cynnal Castell Penrhyn yn ormod i unrhyw un wedi i fri y diwydiant llechi basio. Felly ffarwel i'r hen arglwyddi fydd hanes bob un oherwydd mae trysor mwy ar yr hen ddaear hon sef gwybod nad oes dim yn parhau am byth ond am un peth.

Chwarel y Penrhyn

Pwy bellach all dyrchu i'r mynyddoedd mawr
A dwyn hen greigiau o'n daear lawr?
Pwy all ddinistrio eu pryd a'u gwedd
A chloddio mynydd fel agor bedd?
Pwy all adael tomenni ar fryn
Fel petai nad yw ots am hyn?
Pwy nad yw'n poeni am fynydd a'i les?
Pwy all ei werthu am elw a phres?
Pwy ddrylliodd y mynydd a gadael craith
Flynyddoedd wedi gorffen y gwaith?
Pwy sy'n gadael y lle'n flêr ar ei ôl
Er mwyn i eraill glirio'r cybôl?
Pwy ar y ddaear heblaw yr un
Sydd wastad yn meddwl am ef ei hun?

Bargeinio

Pwy all fargeinio gyda'r Arglwydd? Ac ennill?
Pwy yn wir? Ymddengys i bawb golli yn y diwedd wedi Streic Fawr Chwarel y Penrhyn. Er nad oedd bradwyr mewn llawer tŷ, yr oedd y bywyd yn galed ac wedi mynd yn ôl. Wedi'r streic nid oedd pethau yr un fath a dirywiodd y diwydiant llechi, mwya'r piti. Yr oedd yr hen chwarelwyr yn agor capeli, hybu Coleg Bangor, yn hynod o wâr eu ffyrdd wrth gryfhau cymunedau a hefyd yr oedd rhai yn hynod o ffyddlon i'w cydweithwyr yn enwedig y rhai o'r un meddylfryd, ond yr oedd y rhwyg gyda'r bradwyr yn hir a dwfn.

Bargen

Taro'r fargen oedd cytuno ar bris,
Y gweithwyr yn uwch a'r Arglwydd yn is
Ac yn y canol, fel arfer, cwrdd
Er mwyn i'r ffraeo fynd i ffwrdd;
Ond os mai uwch oedd coron o dâl
A'r Arglwydd yn gwrthod, mae'r byd ar chwâl,
Oherwydd anhegwch, roedd dyfnder bod
Yn dweud fod streic, un fawr iawn i fod;
Streic Fawr, Chwarel y Penrhyn, felly y bu,
Ac nid oedd bradwr yn y tŷ
Ond wedyn aeth rhai yn ôl i'w gwaith
A chael eu labelu hyd dragwyddoldeb maith
Ond sefyll i'r diwedd wnaeth rhai o'r criw,
Pa beth yw anrhydedd? Dyma yw.
Gorffennodd y streic yr oedd angen bwyd,
Ac angen arian chwareli'r Aur Llwyd;
Aethant yn ôl i weithio fel ynghynt
Am 5%, cynffon y bunt.





# FFOWNDRI DINBYCH

Drwy gydol yr 19 ganrif roedd sawl ffowndri yn y rhan hon o'r wlad wrthi'n cynhyrchu peiriannau ar gyfer ffermwyr. Y rhai enwocaf oedd cwmni Phoenix yn Rhuddlan a Ffowndri y Cambrian yn Wrecsam, a daliodd y ddau yma ati ymhell wedi i gwmniau bach yn Ninbych, Yr Wyddgrug a'r Maesglas roi'r gorau iddi. Er hynny, fel y gwelwn, cafodd Ffowndri tref Dinbych gryn lwyddiant.

Hugh Jones o stryd Henllan gychwynodd y busnes, tua 1833, ar ddarn o dir nesaf at yr Hand. Aeth yn bartner gyda Thomas Roberts o Riw'r Bigwn, gan symud i Factory Place gyferbyn a'r 'Farchnad Menyn. Rhywbryd wedi hyn fe ddiflanodd Hugh Jones gyda holl elw'r cwmni a dianc i America. Er hyn fe ddaliodd Thomas Roberts ati am ryw bymtheg mlynedd cyn gwerthu i Evan Thomas o Lain y Capel, Dinbych.

Daeth y fenter yn llwyddiannus o hyn ymlaen. Er iddo gyflawnu'r gwaith amrywiol fel rheiliau stryd, darnau at ddesgiau plant ysgol, a.y.y.b, ei brif ddiddordeb oedd peiriannau ffermio. Dyfeisiodd gynlluniau newydd oedd yn arbennig o addas at Ddyffryn Clwyd. 'Roedd ei erydr yn llawer gwell na'r hen rai a chafodd gryn lwyddiant mewn cystadleuthau aredig. Cwynai rhai pobol am y mwg o'i simneiau a bu raid iddo eu hadeuladu'n uwch.

Dyfeisiodd beiriannau ar gyfer y daith gyntaf i'r Wladfa yn 1865 a thrachefn yn 1875 cafwyd rhagor ganddo, a'r tro hwn ymfudodd ei fab ynghyd a mab Mr Roberts y saer o Riw'r Bigwn i'r Wladfa. 'Roedd parch mawr i Evan Thomas yn y dref. 'Roedd yn aelod o Gyngor y Dref, yn Gadeirydd yr Wyl Gerddorol Fawreddog a hefyd yn aelod o'r Prif Rheithgor yn y Sesiynau Bach. Aeth ei fusnes ar i lawr yn y Dirwasgiad Mawr cyntaf yn 1873 /96 a drawodd yn drwm ar amaethyddiaeth. Aeth yn fethdalwr yn 1883 gan geisio gwerthu'r busnes ar ocsiwn, ond ni lwyddwyd i gyrraedd yr is-safswm a osodwyd. Gwerthwyd, yn y diwedd, am yn agos at £490. i T.A.Wynne Edwards a fu'n gweithio i gwmni Samuelson o Banbury oedd yn gwneud offer amaethyddol dros y byd.

Daeth doniau Mr Wynne Edwards yn amlwg yn fuan iawn. 'Roedd ei gynlluniau newydd am erydr yn ennill gwobrau cyson mewn cystadleuthau. Daeth ei awr fawr yn 1888 pan ennillodd 16 o 17 gwobr yng nghystadleuaeth aredig The Vale of Clwyd and all England. Cynhyrchai amrywiaeth o offer ar wahan i erydr; 'roedd yna ogedau, tyrchwyr, sgyfflars, chwynoglau at geffylau, peiriannau lladd gwair a rhai i'w gynaeafu – a llawer cynllun newydd.

Bu'n arall gyfeirio gryn lawer - par o glwydi ardderchog i Eglwys Llanfwrog, peirianwaith at iard goed a hefyd iard friciau,cynllun at godi sachau ar raff mewn stordai, adeiladau haearn ar gyfer cant o gleifion i fyw dros dro yn Seilam Dinbych ynghyd a'r system ddwr yno, darparu offer at gynhesu Eglwysi Dewi Sant yn Ninbych ag Eglwys Sant Pedr yn Rhuthun, Olwyn Ddwr deg troedfedd ar hugain ag offer at falu mwynau mewn chwarel.

'Roedd Wynne Edwards yn aelod o Gyngor y Dref am ddeuddeg mlynedd, ag yn Faer am ddwy flynedd – y Maer ifancaf yn y wlad – a chafodd ei ddyrchafu yn aelod o Fainc yr Ynadon. Bu'n ymgeisydd dros y Geidwladwyr yn etholiad 1885 pryd yr ennillodd achos o enllib yn ei erbyn gan Faner Thomas Gee.

'Roedd pawb yn cyd fynd yn rhyfeddol yn y Ffowndri. Arferai Wynne Edwards roi pryd o fwyd i'w weithwyr bod blwyddyn mewn gwesty yn y dref. Pan briododd fe gyflwynwyd anrheg iddo ef a'i wraig, ag anrheg drachefn pan ddaeth penblwydd cyntaf eu mab. Fel diolch am hyn fe roddodd ddiwrnod o wyliau i bawb ynghyd a dwy gwningen yr un.

Ond roedd peiriannau rhatach yn cael eu mewnforio o America ag yn achosi trafferth i'r busnes. Rhoddwyd y cyfan ar werth yn 1903 ond i'r wal yr aeth y fenter yn fuan yn nwylo'r prynwyr Jones and Williams. Daeth cwmni Mellard o Crown Square, Dinbych ymlaen gan brynnu'r holl batrymau bwrw er mwyn ceisio cadw'r cwmni i fynd, ond heb lwyddiant. Dyma'r Ffowndri bellach yn cau wedi bod wrthi am ryw ddeng mlynedd a thrigain.



HUW VAUGHAN JONES

Arlunydd,Cartwnydd

Dewis da o luniau du a gwyn a lliw ar gael am bris rhesymol. Adeiladau, anifeiliaid, tractorau, ceir, blodau, coed a.y.b. Neu beth am lun arbennig o'ch dewis chi ar gyfer achlysur arbennig.
Lluniau o bob maint

Cysylltwch â Huw ar
01745 812184

Emyr Evans a'i Gwmni Cyf
Uned 9, Stad ddiwydiannol Colomendy,
Dinbych 01745 812333



Stad Ddiwydiannol
Gaerwen
01248 421900



Darnau ar gael ar gyfer pob math o beiriannau fferm, Pibellau Hydrolic, Olew a Gwrthrew
e-bost:info@emyrevans.co.uk

# DIWYDIANNAU GWLAD YNG NGHYMRU

Gyda diflaniad y diwydiannau gwlad a'r diboblogi yn ardaloedd gwledig Cymru, un peth sy'n amlwg yw pa mor ddibynnol ar ein gilydd yr oeddem yn ein cymunedau gwledig ers talwm

Tref Farchnad
Mae tref farchnad yn hel y diwydiannau gwlad at eu gilydd a mae Dinbych, fu erioed yn dref brysur iawn, yn enghraifft dda o hyn. Mae'r wlad o'i chwmpas yn hollol amaethyddol a mae'r dref yn cynnig cyfle i'r ffermwr werthu ei nwyddau a chael sylw i'w holl offer – gan y gof, saer coed a'r sadler. Weithiau ceid y gof a'r saer troliau yn agos at eu gilydd - byddai angen trwsio neu addasu aradr neu og – 'roedd hyn yn waith i'r gof, a'r grefft gywrain o adeiladu olwynion yn waith i'r saer troliau er bod yn rhaid galw ar y gof i osod cylch haearn tyn o gwmpas y darnau coed. 'Roedd gan y gof hefyd ei waith yn pedoli ceffylau.

Gwaith y Barcer
Dyma un o ddiwydiannau cyffredin ein tref a chanddo alwedigaethau eraill yn dilyn y prif waith. 'Roedd sawl cwrt barcer yma yn Ninbych a phrin iawn bod llawer ohonom yn gyfarwydd a hwy erbyn hyn. Yma y deuai holl grwyn anifeiliaid y cigyddion a ffermwyr yr ardal i'w gwerthu, eu trin a'i gwneud yn lledr i'w ddefnyddio gan sadlerwyr, cryddion a thrwswyr esgidiau. Y pryd hynny dim ond lledr a ddefnyddid i wneud esgidiau mawr a bach, a mae'n debygol bod tua 2000 o grwyn defaid yn cyrraedd y barcdy bob wythnos. Mae gen i gof bod yna lawer o byllau'n llawn dwr gyda chalch ynddynt a theflid y crwyn i mewn i'r pyllau i'w mwydo cyn ag ar ol tynnu'r holl flew oddiar grwyn y gwartheg a gwlan oddiar y crwyn defaid. 'Roedd galw mawr am y blew a'r gwlan a 'roedd yn waith anodd iawn a gymerai bum mlynedd i brentisiaid i'w feistroli.

Dad - Risglo
Peth arall oedd yn gysylltiedig a thrin crwyn anifeiliaid oedd marchnata rhisgl neu risglo. Ym mhob un o gyrtiau'r barcer fe welid sachau mawr o risgl a dynwyd yn ofalus ran grefftwyr oddiar goed derw pan dorrid y coed yn y Gwanwyn wrth i'r sudd godi o'r gwraidd. Gwaith oedd hyn a wneid gan y marchnatwyr coed gan werthu'r rhisgl i'r barcwyr, Cyn ei ddefnyddio rhaid wedyn ei sychu yn yr iardau a'i dorri'n fan. Ar ol y driniaeth yn y pyllau gadewid i'r crwyn sychu. Nid dyna'r diwedd oherwydd fe gymerai ryw 18 mis eto i orffen gwaith ar y crwyn cyn iddynt fod yn barod i'w gwerthu. Roedd y gwaith hwn yn grefft arbennig ag y mae bron iawn a darfod erbyn hyn yn y Gymru wledig.

Canhwyllau Gwer
Golau cannwyll oedd yr unig ffordd i oleuo tai yn y Gymry wledig tan ddiwedd y 19 ganrif. Roedd cynhyrchu canhwyllau gwer yn aml yn waith a wneid ynghyd a thrin crwyn anifeiliaid mewn barcdai, a chedwid pob gronyn o fraster at y pwrpas o wneud canhwyllau. Roedd canhwyllau Boaz Jones yn Ninbych yn enwog dros ardal eang a defnyddid hwy am beth amser ar ol dyfodiad canhwyllau cwyr.

Gwneud Esgidiau, a menig
Gan fod yma gymaint o ledr cartref ar gael, roedd masnach fawr a nifer sylweddol o grefftwyr llawn-amser wrthi yn gwneud esgidiau a llaw o bob math a maint. Roedd y gwaith medrus hwn yn golygu prentisiaeth o bum mlynedd fel arfer. Gwneid pob esgid at droed arbennig a fe'i gwneid yn wydn a thrwm ag yn addas at ffermwyr.
'Roedd digon o ledr, wrth gwrs, i'r sadler hefyd fedru gwneud a thrwsio popeth at ddefnydd y ffermwr. Roedd digon o waith i bawb pryd hynny ag er y newid mawr erbyn hyn, mae'n rhyfedd bod cenedlaethau o'r un teulu yn dal i arfer rhai o'r crefftau gwlad.
Wrth fwrw golwg mwy cyffredinol ar y diwydiannau gwlad, gwelwn hefyd - wneuthurwyr clocsiau, cowperiaid neu gasgenwyr, teilwriaid, towyr –at dai to gwellt, -melinwyr, gwneuthurwyr clociau a gwasanaethau cydwethredol fel pobi bara mewn becws, a golchi a sychu dillad gyda mangl.
Diflas meddwl am yr holl ddiwydiannau a chrefftau gwlad sydd ar goll erbyn heddiw, ond aeth amser yn ei flaen, a chyda cymaint o bobl yn byw yn y trefi erbyn hyn, a chymaint yn llai sy'n byw yn y wlad, anodd yw meddwl am bethau fel arall.

G. O. Williams 1952

Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych
Conwy & Denbighshire Care & Repair

Chwilio am Aelodau brwd i Fwrdd Rheoli Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych!

Ydych chi'n angerddol am alluogi pobl i fyw'n annibynnol yn eu cartrefi? Mae **Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych** yn chwilio am aelodau brwd ar gyfer eu Bwrdd Rheoli. Gyda chyfarfodydd digidol nawr yn gyffredin, mae'n haws nag erioed i wneud cyfraniad, lle bynnag rydych chi'n byw.

Rydym yn edrych yn benodol am unigolion gyda phrofiad a diddordeb yn y meysydd:

- **Iechyd**
- **Pobl hŷn / anabledd / addasiadau**
- **Sector breifat a masnachol**

Rydym hefyd yn awyddus i sicrhau amrywiaeth o ran oedran a chefndir.

Am fwy o wybodaeth cysylltwch a Lynda Colwell
lynda.colwell@gofalathrwsio.com



Mae Gofal a Thrwsio Conwy a Sir Ddinbych yn is-gwmni i Grŵp Cynefin.
Grŵp Cynefin

BROOKHOUSE MILL
Bwydlen á la carte, cinio, a chinio dydd Sul
Priodasau, dyweddïad, penblwydd, bedydd
Dydd Sul 12-6 Dydd Llun - ar gau
Dydd Mawrth- Gwener 12-3, 5.30 tan hwyr
Dydd Sadwrn ar agor trwy'r dydd
Ffôn: 01745 813377

mudiad meithrin 50
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

academi
datblygu • hyfforddi • meithrin

# Gweithio gyda phlant bach er budd yr iaith Gymraeg

A fyddech chi'n mwynhau cyflwyno'r Gymraeg i blant bach eich cymuned leol gan gadw'r iaith yn fyw yn eich ardal? Mae 'na lawer o gyfleoedd ar gael i drio am swyddi yn eich Cylchoedd Meithrin lleol.

Mae gweithio mewn Cylch Meithrin gyda phlant 2-5 oed yn gallu rhoi boddhad mawr i chi wrth weld y plant yn siarad Cymraeg am y tro cyntaf a rhoi hyder i'w rhieni i'w gyrru ymlaen i Addysg Gymraeg. Gallwn hefyd eich cefnogi i gael hyder i ail-gydio yn y Gymraeg os nad ydych wedi cael cyfle i'w defnyddio yn aml ers i chi adael yr ysgol.

Trwy weithio mewn Cylch Meithrin byddwch yn cyfrannu at y nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050.

Os hoffech ystyried newid swydd, yna mae gennym gynlluniau hyfforddi amrywiol i'ch helpu i ennill cymhwyster addas tr a'n gweithio.

I glywed mwy am ein holl swyddi, ewch i'n gwefan – www.meithrin.cymru/swyddi
Am sgwrs pellach mae croeso i chi gysylltu gyda Leanne Marsh, drwy ffonio 01970 639639 neu e-bostio leanne.marsh@meithrin.cymru .

Cofion caredig,

Gwenllian

Dr Gwenllian Lansdown Davies
Prif Weithredwr Mudiad Meithrin

Clwb Cwtsh
meithrin.cymru/clwbcwtsh




CYFREITHWYR SOLICITORS
GUTHRIE JONES & JONES

29 FFORDD RHUTHUN,
DINBYCH LL16 3EH
Ffôn : 01745 814 817 E-bost: dinbych@guthriejj.co.uk
Gwefan: www.guthriejj.co.uk
Gwasanaeth Cyfreithiol cyflawn yn y Gymraeg

Eisiau gweithio gyda phlant bach?




Mae nifer o wahanol swyddi ar gael mewn Cylchoedd Meithrin a Meithrinfeydd Mudiad Meithrin.
Dyma gyfle i chi gyflwyno'r Gymraeg i blant bach yn eich ardal chi. Byddwch yn cael pleser o'u gweld yn datblygu'n siaradwyr Cymraeg hyderus gan wybod eich bod chi wedi cyfrannu at hynny!
Am wybodaeth am ein holl swyddi ewch i'n gwefan –
www.meithrin.cymru/swyddi
Angen cymhwyster gofal plant?
Mae gennym nifer o gyrsiau ar gael i'ch helpu –
www.meithrin.cymru/prentisiaeth
Am sgwrs pellach: Leanne.marsh@meithrin.cymru
neu ffoniwch 01970 639639
Rhif elusen: 1022320

mudiad meithrin
arbenigwyr y blynyddoedd cynnar

# Lansio Cynllun Newydd ‘Meithrin Gyrfa’

Mae Mudiad Meithrin mewn partneriaeth â Portal Training wedi lansio cynllun mentora newydd sbon o’r enw Meithrin Gyrfa ddydd Llun 10 Ionawr 2022.

Bwriad Meithrin Gyrfa yw arfogi ac uwchsgilio unigolion i fedru datblygu eu gyrfaoedd gan dynnu ar brofiadau, gwybodaeth a chysylltiadau Mudiad Meithrin fel rhan o’i weledigaeth a’i gyfraniad at wireddu Strategaeth Cymraeg 2050 Llywodraeth Cymru i gyrraedd miliwn o siaradwyr Cymraeg.

Rydym am ddarparu cyfleoedd i unigolion sydd:

* eisiau magu hyder yn eu sgiliau Cymraeg er mwyn gallu gweithio trwy gyfrwng y Gymraeg
* yn ddi-hyder wrth ddefnyddio eu Cymraeg gan nad ydynt wedi cael cyfle i ddefnyddio’r iaith ers dyddiau ysgol ond sydd â diddordeb dilyn gyrfa yn y maes
* ar drobwynt yn eu gyrfa ac am ddatblygu eu hunain, ac ysbrydoli eraill

Beth bynnag fo’r rheswm, rydym yn annog unigolion o bob oedran a chefndir i wneud cais i fod yn rhan o’r cynllun, a bod yn arweinyddion a modelau rôl positif i eraill.

Meddai Helen Williams, Pennaeth Tîm Hyfforddi, Dysgu a Datblygu Mudiad Meithrin:

*“Ry’n ni’n edrych ymlaen yn fawr at roi’r cynllun yma ar waith. Mae Meithrin Gyrfa wedi ei greu er mwyn cefnogi unrhyw un sydd am weithio’n hyderus drwy gyfrwng y Gymraeg. Mae’r cynllun yn rhan o weledigaeth ehangach Mudiad Meithrin o ran cefnogi’r nod o gael miliwn o siaradwyr Cymraeg erbyn 2050, ac hefyd yn cyfrannu tuag at economi ein cymunedau lleol o safbwynt rhoi’r sgiliau a’r hyder i unigolion fynd am swydd yn y sector Gymraeg.”*

*“Mae adran hyfforddiant, dysgu a datblygu Mudiad Meithrin yn falch o safon ac ansawdd ei ddarpariaeth cyson i’w haelodau, a thrwy gynllun Meithrin Gyrfa ry’n ni’n medru agor y drws i fwy o unigolion elwa o arbenigeddau a phartneriaethau’r Mudiad.”*

Drwy’r cynllun 4 mis yma bydd 20 o ymgeiswyr llwyddiannus yn cael cefnogaeth benodol gan fentoriaid a hyfforddwyr profiadol a fydd yn:

* creu cynllun datblygu personol
* adnabod cyfleoedd i loywi sgiliau iaith llafar ac ysgrifenedig
* helpu i greu argraff wrth ysgrifennu ffurflen gais
* codi hyder mewn cyfweliad
* darparu sesiynau hyfforddi a mentora 1:1
* sicrhau iechyd a lles yr unigolyn

I wneud cais am gael bod yn rhan o Meithrin Gyrfa, rhaid cwblhau ffurflen datgan diddordeb erbyn 28 Ionawr 2022. Am ragor o wybodaeth a ffurflen datgan diddordeb ewch i www.meithrin.cymru/academi neu e-bostiwch helen.williams@meithrin.cymru

# Gwybodaeth Gyffredinol am Mudiad Meithrin

Mae Mudiad Meithrin yn elusen gofrestredig (rhif elusen: 1022320). Ei nod yw rhoi cyfle i bob plentyn ifanc yng Nghymru fanteisio ar wasanaethau a phrofiadau blynyddoedd cynnar trwy gyfrwng y Gymraeg. Pan sefydlwyd y Mudiad yn 1971 roedd ffigurau’r Cyfrifiad y flwyddyn honno yn nodi mai 11.3% o blant 3-4 oed yng Nghymru oedd yn gallu siarad Cymraeg. Cafwyd cynnydd graddol ers hynny a braf nodi yng Nghyfrifiad 2011 roedd y ffigwr wedi dyblu i 23.3% o blant 3-4 oed yn gallu siarad Cymraeg. Heb os, mae’r gwaith caled a wnaed yn y Cylchoedd Meithrin a’r cylchoedd Ti a Fi dros y blynyddoedd wedi cyfrannu’n helaeth at sicrhau’r cynnydd yma.

Mae dros 1,000 o ddarpariaethau blynyddoedd cynnar y Mudiad ledled Cymru yn cynnwys:

Cymraeg i Blant - cynllun yn canolbwyntio ar gynyddu niferoedd siaradwyr Cymraeg ymhlith plant oedran meithrin trwy gynnal sesiynau Cymraeg i Blant i deuluoedd gyda phlant ifanc a babanod ar draws Cymru.

Cylchoedd Ti a Fi – dyma gyfle gwych i blant o enedigaeth hyd at oed ysgol a’u rhieni gwrdd unwaith yr wythnos i gymdeithasu a rhannu profiadau ac i chwarae gyda’i gilydd mewn awyrgylch anffurfiol Gymreig.

Cylchoedd Meithrin – mae Cylchoedd Meithrin yn cynnig sesiynau gofal ac addysg ddyddiol ar gyfer plant 2 - 5 mlwydd oed. Mae dros 12,000 o blant yn cael cyfle i ddysgu trwy chwarae yn y Gymraeg yn y cylchoedd meithrin.

Canolfannau Integredig - mae ein Canolfannau Integredig yn cynnig amrywiaeth eang o wasanaethau cefnogol cyfrwng Cymraeg ar gyfer plant a’u teuluoedd sy’n cynnwys gofal dydd llawn a sesiynol, darpariaeth cyn ac ar ôl ysgol, hyfforddiant a chyngor i rieni.

Meithrinfeydd – mae ein meithrinfeydd dydd yn cynnig gofal ac addysg o ansawdd i blant dros chwe wythnos oed hyd oed ysgol mewn awyrgylch deniadol, diogel, cyfeillgar a Chymreig.

Cynlluniau Cyfeirio - mae Cynlluniau Cyfeirio’r Mudiad yn cynnig cefnogaeth arbennig i blant gydag anghenion ychwanegol.

Cynllun Hyfforddi Cenedlaethol, Cynllun Ysgolion Cam wrth Gam ac Academi – adrannau o’r Mudiad sy’n gyfrifol am ddatblygu a chynnal hyfforddiant ym maes gofal ac addysg blynyddoedd cynnar cyfrwng Cymraeg i ddisgyblion mewn ysgolion uwchradd ynghyd ag uwchsgilio staff a gwirfoddolwyr yn y Cylchoedd Meithrin.

Dewin a Doti – cymeriadau unigryw’r Mudiad sy’n ffrind i holl blant y cylchoedd meithrin ac sy’n eu helpu a’u hybu i siarad Cymraeg. Mae modd prynu nwyddau Dewin a Doti sy’n unigryw i’r Mudiad trwy’r siop ar-lein – www.meithrin.cymru/siop

Codi arian – gan fod y Mudiad yn elusen gofrestredig rhoddir pwyslais ar weithgareddau codi arian trwy’r Clwb 100, pecynnau nawdd, a nifer o ddigwyddiadau codi arian yn lleol ac yn genedlaethol.

Mae dros 220 o staff cyflogedig gan Mudiad Meithrin yn genedlaethol a thros 1,500 o staff yn gweithio yn y cylchoedd meithrin. Mae Swyddogion Datblygu'r Mudiad yn gweithio’n lleol yn eu siroedd er mwyn cynnig arweiniad a chyngor ymarferol i staff y cylchoedd, gwirfoddolwyr a rhieni.

# O’r Llyfrgell


Mae grŵp darllen Cymraeg Sgwrs a Sangria yn cyfarfod yn rhithiol bellach, ac ar ddechrau Ionawr cawsom noson o sgwrsio a thrafod y nofelau ‘Y Stori Orau’ gan Lleucu Roberts a ‘Gavi’ gan Sonia Edwards. ‘Roedd y ddau lyfr wedi cael sylwadau cadarnhaol felly dewch i’r llyfrgell i fenthyg copïau. Bydd ein cyfarfod nesaf o’r grŵp ar nos Fawrth 15fed o Fawrth gan obeithio erbyn hynny bydd posib cyfarfod yn y Llyfrgell. Croeso cynnes i aelodau newydd. Y tri llyfr dan sylw'r bryd hynny fydd ‘Pum diwrnod a Phriodas’ gan Marlyn Samuel, Adref sef casgliad o straeon byrion gan ferched a ‘Yr Eneth Gadd ei Gwrthod’ gan Gwen Parrot.








Hunangofiant y gantores dalentog Non Parry o'r grŵp pop Eden, a chyfrol sy'n mynd y tu ôl i fyd glamyrys y sîn bop gan drafod iechyd meddwl yn onest iawn. Fe fydd hefyd yn trafod heriau a salwch ei gŵr, y comedïwr Iwan John, a'r effaith gafodd blynyddoedd o ddisgwyl am ei drawsblaniad ar y teulu cyfan.




Nofel gyfoes, lawn hiwmor ag iddi linyn storïol cryf gan yr awdures boblogaidd, Marlyn Samuel. Daw dau deulu ynghyd mewn glân briodas dramor. Yn ddiarwybod, mae cwlwm eisoes yn bodoli rhyngddynt!




Pwy sy’n byw o dan y tonnau? Goleua’r dudalen a chei weld ... Edrycha’n fanwl ar gefnforoedd y Ddaear a chei weld byd y dŵr sy’n llawn rhyfeddodau mawr a man! Cei ryfeddu at y cynefinoedd tanddwr, y bywyd gwyllt a’r nodweddion anhygoel, o forloi bach yn yr Arctig i ddreigiau môr deiliog sy’n cuddio yn y Cefnfor Tawel :




Cyn hanes, cyn y chwedlau, roedd...GWIL GARW! Ei swydd: i gadw trefn ar greaduriaid hudolus y Sw Angenfilod. Y broblem: Does dim diddordeb o gwbl gyda Gwil mewn heddwch. Wedi i'w dymer a'i chwilfrydedd roi'r byd mewn perygl, mae'n rhaid i Gwil, rywsut, ffeindio ffordd i wella pethau, mewn antur epig, llawn hiwmor a rhyfeddodau.

Sut i gysylltu â ni: Ar-lein www.sirddinbych.gov.uk/llyfrgelloedd
I e-bostio: llyfrgell.dinbych@sirddinbych.gov.uk







Tŷ Te a Delicatessen
Coronation Buildings,
Lôn Gefn,
Dinbych, Ll16 3TE
deli@teynygrug.co.uk

01745 816576

Gwefr heb Wifrau AMGUEDDFA RADIO Dilynwch ni ar flickr Cwmulus https://cwmulus.org/

Digwyddiadau

Cawsom sgwrs ddifyr iawn gan Eira Jones am Plas Pren, y Plasty Coll, sef Gwylfa Hiraethog, ar-lein yn ddiweddar. Bu Eira yn byw mewn rhan o'r plasty am bedair blynedd pan oedd hi'n blentyn gan fod ei thad yn gipar ar yr ystad, a'i theulu hi oedd y teulu olaf i fyw yno. Ers ymddeol mae hi wedi bod yn ymchwilio i hanes y plas, a ffrwyth y llafur yna oedd y ddarlith.

Adeiladwyd y plas pren gwreiddiol gan Hudson Ewbanke Kearley, Iarll Devonport, ar ôl iddo weld plasty pren yn Oslo, Norwy a mewnforio tri thŷ pren i'w codi ar Fynydd Hiraethog yn 1897. Ond, mae tywydd Cymru yn wlypach na thywydd Norwy ac yn 1908 bu raid codi croen o gerrig a briciau lleol o gwmpas y plas i'w gadw yn sych. Yn 1912 -1913 ail-fodelwyd y plas gan bensaer enwog Edwin Cooper. Gosodwyd haen o blastr gwyn o'i gwmpas mewn ymdrech arall i gadw'r glaw allan ac arddangoswyd yr arwyddbais, "Strength is the way" ar y wal flaen. Roedd y 57 o ystafelloedd yn hynod o foethus gyda gwres canolog, carthffosiaeth soffistigedig, system oleuo a ddefnyddiai 'loco vapour gas' a phob ystafell wedi eu haddurno yn gywrain. Pan fyddai'r teulu yn dod i aros yn y plasty bob mis Awst a Medi, byddent yn teithio ar y trên o Lundain i Ddinbych, yn cael te yng Ngwesty'r Goron, cyn teithio ar gert a cheffyl am y ddeng milltir ddiwethaf. Byddai rhaid cludo'r teulu, y gweision a'r morynion, y dillad gwely a'r llestri arian ar wahân.

Ar ôl adeg y rhyfel, daeth tro ar fyd a cheisiwyd gwerthu'r plasty, yn aflwyddiannus. Gosodwyd y tir a'r plas ar brydles i gwmni o Ddyffryn Clwyd, er mwyn saethu crugieir. Y ciperiaid oedd yn gofalu am y mynydd, a dyna oedd gwaith tad Eira yn 1951-1955. Diflannodd y gratiau, y baddonau, y toiledau, y plwm a'r llechi ar y to gan adael yr adeilad yn agored i'r tywydd. Gwerthwyd y plas a'r tir yn 1981 am £31,500. Erbyn heddiw, mae'r tir ym meddiant ffermwyr lleol a'r plas ym meddiant fferm Cwm Y Rhinwedd. Dim ond pentwr o gerrig sy ar ôl – ond, fel dywedodd Eira, "Mae'r olygfa yn dal yr un fath."



Gwylfa Hiraethog heddiw

Profiad personol o'r radio

Diolch i Jac Roberts am rannu ei atgofion o wrando ar y radio:

"Roedd y radio neu'r weirlas yn rhan annatod o fywyd adre ar y fferm yn Ysbyty Ifan. Rwyf yn cofio fy mam yn adrodd hanes diwrnodau Dolig cynnar a bod angen sicrhau bod yna fatri gwlyb ar gyfer y radio er mwyn i'w thad allu gwrando ar y Meseia.

Rhaid oedd gwrando ar y newyddion ond, yn bwysicach fyth, rhagolygon y tywydd ben bore, amser paned ganol bore, amser cinio a the. Roedd gwaith y dydd a'r wythnos yn dibynnu gymaint ar y tywydd. Yn anffodus dim ond un radio oedd acw nes i fy chwaer fawr gael transistor radio fach. Doedd dim rhaid i mi wedyn wrando ar y newyddion hyd at syrffed gan y gallwn fenthyg/dwyn y transistor i wrando ar Radio 1 neu Radio Luxembourg!

Rydw i'n cofio gwrando ar 'Pick of the Pops' a'r 'Top 40' gyda'r cyflwynwyr Alan Freeman, Simon Bates a Tony Blackburn. Gallwn gario'r transistor yn fy llaw i nôl y gwartheg amser godro gan forio canu i gerddoriaeth iasol grwpiau fel Hawkwind (Silver Machine) neu Dr Hook (Sylvia's Mother).

Rydw i'n cofio unwaith ar ddydd Sadwrn Cwpan yr FA yn 1970 i ni gael toriad pŵer a cholli'r trydan, ac i mi a fy nhad a fy mrawd eistedd yn y car ar y buarth yn gwrando ar sylwebaeth radio ar y gêm rhwng Chelsea a Leeds. Erbyn y gêm ail chwarae roedd y trydan yn ôl ond yn anffodus fe gollodd Leeds!"

Oes gennych chi atgofion o wrando ar y radio? Fasech chi'n fodlon eu rhannu, os gwelwch yn dda? Cysylltwch â Gwefr heb Wifrau ar gwybod@gwefrhebwifrau.cymru

Eitem o'r casgliad




Dyma radio transistor cludadwy Lafayette, rhodd ddiweddar i'r Amgueddfa. Mae'n radio prin ac anarferol a gynhyrchwyd yn UDA yn 1971, pris $39.95, a fedrai dderbyn darllediadau FM, darllediadau Heddlu a Gwasanaeth Tân America ac adroddiadau tywydd. Roedd hefyd yn medru derbyn sain sianeli teledu Americanaidd, fel bo'r gwrandawr/gwyliwr yn medru gwrando ar lefel sain addas heb aflonyddu ar unrhyw un arall yn yr ystafell. Erbyn heddiw dim ond radio FM mae'n derbyn, oherwydd nad yw'n medru dadgodio darllediadau digidol. →

Y darlithiau nesaf

Dyma'r darlithiau ar-lein nesaf yn y gyfres, sy'n agored i bawb, ac yn cychwyn am 7.00 y.h. Ewch i wefan Cwmulus neu dudalen Facebook Gwefr heb Wifrau i gofrestru:

Ar Chwefror 18fed, bydd Dr. D. Ben Rees yn siarad am Porthladd Lerpwl – man geni iechyd cyhoeddus, yn Gymraeg. Tyfodd dinas Lerpwl yn gyflym iawn yn ystod y bedwaredd ganrif ar bymtheg, ynghyd â chyfoeth ei masnachwyr. Ar yr un pryd, roedd tlodi enbyd, gorboblogi a salwch, a bu farw miloedd o bobl o achos colera. Bydd Dr. Rees yn amlinelllu sut y brwydrodd Lerpwl yn erbyn y clefyd trwy ddefnyddio gwyddoniaeth, hylendid a dyfalbarhad. Yn ystod pandemig colera olaf y ganrif yn 1892, dim ond 4 o bobl o Lerpwl fu farw, o'u cymharu â 8,600 yn Hamburg.

Ar Fawrth 18fed, bydd Mike Farnworth (â gwestai arbennig) yn sôn am Giraldus Cambrensis: sgwrsio a recriwtio o gwmpas Cymru, 1188 yn Saesneg. Bydd Mike yn rhoi cipolwg i ni ar fywyd yng Nghymru annibynnol yn ystod Oes y Tywysogion fel yr ymddengys yn llyfr Gerallt Gymro, ar ôl iddo hebrwng Archesgob Caergaint o gwmpas Cymru yn recriwtio dynion i ymladd yn y drydedd Croesgad. Cawn glywed am straeon rhyfedd gwahanol ardaloedd hefyd.

Ymweld â'r Amgueddfa

Os ydych am ymweld â'r Amgueddfa yn ystod y gaeaf, cysylltwch â ni ar gwybod@gwefrhebwifrau.cymru i drefnu apwyntiad os gwelwch yn dda.




*Trefnwyr Angladdau Annibynnol*

**R.W.Roberts a'i Fab**

Gwasanaeth personol a gofalgar, Ddydd a Nos

Capel Gorffwys breifat yn Ninbych ac yn ein swyddfa newydd yn Abergele

Gorffwysfa, Ffordd Ystrad, Dinbych, LL16 4RH
Ffôn: 01745 812935
Ffacs : 01745 817303
E:rwroberts.gorffwysfa@gmail.com

Plas Tirion, Kinmel Avenue, Abergele, LL22 7LW
Ffôn: 01745 827777
Ffacs : 01745 827750
E: rwroberts.abergele@gmail.com

www.rwrobertsandson.co.uk

Golden Charter Funeral Plans

National SAIF Independent Funeral Directors

**MALDWYN WILLIAMS**



Ffordd y Rhyl, Dinbych

Ffôn:01745 812542

DARNAU I BOB MATH O GEIR

STÔRS: 813840

GORSAF MOT

GOLCHFA CEIR



GWERTHU CEIR A CHERBYDAU 4 X 4

Ffôn:01745 814647

maldwynwilliams@garageservices1.fsnet.co.uk

CYFREITHWYR SwayneJohnson SOLICITORS

**Gwasanaethau i Chi**

- Trawsgludo – Symud Tŷ a Materion Eiddo Preswyl
- Landlord a Thenant
- Cyfraith Teulu
- Ewyllysiau, Ymddiriedolaethau ac Ystadau
- Llys Gwarchod a Phwerau Atwrnai
- Cynllunio Ffioedd Cartrefi Gofal
- Cynllunio Treth
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Cyfreitha Sifil, Anghydfodau ac Hawliadau
- Cyfraith Cyflogaeth

**Gwasanaethau ar gyfer eich Busnes**

- Cyfraith Amaethyddol
- Ffurfiant Busnes a Chwmnïau a Corffori
- Strwythurau Busnes a Phartneriaethau
- Eiddo Masnachol – prynu a gwerthu
- Cyfraith Cyflogaeth
- Eiddo Deallusol
- Cartrefi Gofal
- Cyfraith Elusennol ac Eglwysig
- Diwydiant Hamdden – Parciau Gwyliau a Carafanau, Gwestai a Cyfraith Trwyddedau

2 Sgwâr y Neuadd, Dinbych, LL16 3PA

01745 812835

www.swaynejohnson.com cyfraith@swaynejohnson.com


**Y Cyfreithwyr Arbenigol yng Nghalon eich Cymuned**

Hefyd yn Rhuthun, Llanelwy, Llandudno, Bangor a Tattenhall

# Cornel y Plant



Lliwch y llun



Unwch y dotiau I ddarganfod y llun!



Beth yw'r 5 gwahaniaeth rhwng y ddau lun?

$$2 \square 1 \square 6 \square 6 = 48$$

$+ \quad - \quad \times \quad \div$

# Ysgol Twm o'r Nant






Wedi'r gwyliau Nadolig a phawb wedi mwynhau derbyn anrhegion gan Sion Corn a bwyta gormod, braf oedd cael croesawu pawb yn ôl i'r ysgol.
Mae tymor prysur o'n blaenau, gyda'r paratoadau at Eisteddfod yr Urdd Sir Ddinbych wedi dechrau eto, o'r diwedd, a phawb yn edrych ymlaen yn fawr.

<u>Uned dan 5</u>
Braf oedd cael dod nôl i'r ysgol ar ôl gwyliau'r Nadolig. Roedd pawb yn hapus i weld eu ffrindiau unwaith eto. Rydym wedi bod yn brysur yn paratoi a dysgu cân Mistar Urdd ar gyfer ei barti yn 100! Cawsom gyfle i wneud bwyd i'r adar bach yn yr ardal tu allan Rydym wedi bod yn gwneud llawer o weithgareddau cyfri a setiau o wrthrychau gyda pheli eira a dynion eira. Cawsom hefyd gyfle i wneud arbrawf ymdoddi! Am hwyl!










<u>Uned dan 7</u>
Dechrau da i Dymor y Gwanwyn yn trafod ein thema newydd 'Adeiladu a'n hardal ni.'
Mae'r plant wedi dysgu am stori y 'Tri Mochyn bach' a chynnal arbrawf gwyddonol am ba ddeunydd buasai'r orau ar gyfer adeiladu tŷ. Rydym wedi bod yn dysgu i ddweud yr amser gan chwarae gemau amrywiol fel 'Faint o'r Gloch yw hi Mr Blaidd? Mae'r plant yn edrych ymlaen at ddysgu mwy am yr adeiladau yn yr ardal leol nesaf..




<u>Uned dan 9</u>
Ar ddechrau'r flwyddyn Newydd dysgodd yr uned am hen draddodiadau Cymru o ddathlu y flwyddyn Newydd gan glywed traddodiadau y Fari Lwyd a creuwyd perllan.
Byddwn ni yn teithio i'r gofod yn ein thema y tymor yma. Mae'r plant yn gyffrous iawn ac mae eu chwifrydedd tuag at y maes yn fyrlymus Yn yr wythnosau cyntaf eu tasg oedd i ddod yn gyfarwydd gyda chysawd yr haul. Edrychwn ymlaen i ddysgu mwy dros yr wythnosau nesaf. Pwy a wyr efallai bydd gennym ofodwyr y dyfodol yma yn ein uned!







Uned dan 9

| | | | | | | | | |
|---|---|---|---|---|---|---|---|---|
| | | 2 | | | | 7 | | |
| | 6 | | 4 | 2 | | | | 8 |
| | | | 9 | | | | 2 | 5 |
| 2 | | | | 1 | | 5 | 4 | |
| | 9 | | 2 | | 8 | | 3 | |
| | 7 | 3 | | 9 | | | | |
| 3 | 2 | | | | 9 | | | |
| 4 | | | | 3 | 5 | | 6 | |
| | | 9 | | | | 1 | | |

<u>Uned dan 11</u>

Mae hi'n flwyddyn newydd, ac yn dymor newydd! Mae'r disgyblion yn edrych ymlaen yn fawr iawn ar gyfer ein thema- Y60'au! Yn y thema, byddem yn trafod am y Beatles, Neil Armstrong yn glanio ar y lleuad a llawer mwy. Mae dillad y 60'au yn bwnc hoffai'r disgyblion ymchwilio, ond yn anffodus does gan Mr Parry a Mr Aled ddim syniad o gwbl am ffasiwn! Felly os oes ganddoch chi unrhyw 'Help' hoffech ei gynnig a'i rannu gyda ni, fysa'n well i ni 'Come together' a byddem yn ei werthfawrogi yn fawr iawn. 'With a Little Help From My Friends' fydd hon yn Thema wych!!




**GWAITH SAER PEN-YBRYN Cyf**

***Arbenigwyr Gwaith Coed a Lloriau***

Gwaith coed i gyfarfod â'ch holl ofynion

**Ffôn:01745 815481 Facs:01745 814332**

**e-bost:mail@penybrynjoinery.co.uk**



cyngor sir ddinbych

Cynghorydd

**Mark John Young**



Dinbych Isaf - Annibynnol

**Symudol: 07825 912554**

www.sirddinbych.gov.uk


E:mark.young@sirddinbych.gov.uk

## Atebion Ionawr 2022

**Ar Draws :**
1. Penysgafn
6. Arafu
9. Amser
10. Sir Benfro
11. Trysorfa
12. Ionawr
15. Soda
16. Adlewyrchog
18. Ailadroddus
19. Beta
22. Wagner
23. Diwaelod
25. Didosturi
27. Tagfa
28. Largo
29. Pencadlys

**I Lawr :**
1. Plantos
2. Noswyl Nadolig
3. Serchog
4. Ansefydlog
5. North
6. Ategolyn
7. Arf
8. Unochrog
13. Archaeolegol
14. Iesu tirion
17. Adleisio
18. Anwadal
20. Ar draws
21. Mantra
24. Pump
26. Dŵr

## CROESAIR CHWEFROR 2022




**Ar Draws :**
8. Elfen rhif 89 yn y tabl cyfnodol
9. Wedi datblygu'n llawn
10. Cerflun
11. Is-gyfandir yn Asia
12. Chwerwi
13. Dawnswraig
16. Cyrraedd y llawr
18. Ceudod tanddaearol naturiol
20. Ffrwythau bach crwn
21. Iaith swyddogol ym Mhacistan
22. Lle mae trenau'n aros
23. Y weithred o rwystro gôl
26. Rhan o'r llygad sy'n ffocysu golau
28. Cafodd hwn ei achub, yn ôl y gân
30. Cymeriad yn y ddrama Othello
31. Pwerdy fel un Trawsfynydd
32. Gallai fod yn fatiwr, bowliwr neu faeswr

**I Lawr :**
1. Cyflwr ar y croen
2. Tila
3. Gwisg nofio deuddarn
4. Addewid
5. Marwnad
6. Yn gymwys i'r diben
7. Person allweddol mewn eisteddfod
14. Bwa amryliw
15. Mae'n cludo gwaed o'r galon
17. Caiff ei ddefnyddio i ddenu anifail mewn magl
19. Gwledda
20. Gwellhad
24. Ar lan y môr hwn mae Stockholm
25. Yn bochio allan fel cefn llwy
27. Pobl sy'n crwydro gogledd Norwy, Sweden a'r Ffindir
29. .... bo, neu fwgan
30. Siop fawr o Sweden






## Cymdeithas Edward Llwyd

**Cymdeithas Genedlaethol Naturiaethwyr Cymru**

(Y Gogledd Ddwyrain) - 2 lun ar dudalen gefn

Teitl y daith: Llanrhaeadr yng Nghinmeirch (Ionawr 15fed.)

Taith dros gaeau, drwy goedwig ac ar hyd lonydd tawel y fro. Tua 4m.

Wyddoch chi mai Ffenest Jesse (1533) yn Eglwys Dyfnog Sant, Llanrhaeadr yng Nghinmeirch yw'r orau yng Nghymru? Mae'r ffenest yn dangos coeden achau Iesu Grist gan gychwyn gyda Jesse,tad y Brenin Dafydd.

Wyddoch chi fod pererinion yn yr 16g. yn tyrru i gael eu hiachau yn Ffynnon Dyfnog sydd wrth yr eglwys a bod ystafelloedd newid ar ochr ffynnon/ baddonau?

Dyma oedd cychwyn ein taith gerdded ganol Ionawr. Roedd cymaint i'w weld yn y llan gan gynnwys yr eglwys a ffynnon Dyfnog/ baddonau, yr elusendai (1729) a'r hen efail, Y King's Head a'r hen ysgol.

Ym mynwent yr eglwys, rhaid oedd ymweld â bedd yr emynydd Edward Jones, Maes-y-Plwm(1761-1836) a bedd Ann Parry, Bryn Mulan, Prion (1718-1787 ) a enillodd le iddi ei hun ymysg mamau Methodistaidd Cymru yn y 18g. Edward Jones, Maes-y-Plwm ac Ann Parry yn ddiau yw'r enwocaf o blith Methodistiaid Prion.

Dyna ddigon o Lanrhaeadr yng Nghinmeirch am y tro – dechrau digon diddorol ac addysgiadol a gwerth yr oedi ond roedd rhaid ymadael am ardal Prion drwy hen faes golff Gwesty Bryn Morfydd a heibio ambell i fyncyr. Merlod yw'r perchnogion newydd!

Ymlaen drwy goedwig Coed Mawr a lle cysgodol i fwynhau picnic a hoe fach cyn anelu at Graig Lwyd a dilyn lôn gul heibio Groesffordd, Cae Coch a Pen-y-Bryn ar y ffordd i lawr yn ôl i Lanrhaeadr.

Braf oedd dod ar draws clwstwr o lili wen fach yn y clawdd ond prin oedd y blodau gwyllt heblaw am ambell i lygad y dydd a llygad Ebrill.

Trist oedd gweld safle Gwesty Bryn Morfydd. Dim byd ar ôl ac fel Llys Ifor Hael gynt,' gwael yw'r gwedd………..
Drain ac ysgall mall a'i medd
Mieri lle bu mawredd.'

Trawiadol oedd y carped meddal o fwsog oedd yn dew yn y waliau nepell o hen safle'r gwesty.

Ar y ffordd i lawr yn ôl at yr hen ysgol, cawsom hanes Gwladus Ddu, merch Llywelyn Fawr a Siwan. Roedd yn berchen ar yr holl diroedd a welai i bob cyfeiriad o'i chadair yma, Cadair Gwladus Ddu.

Yn ôl at yr eglwys a phaned yn Y Lodge cyn ffarwelio. Diwrnod i'w gofio!

O.N. Braf oedd cyfarfod gwirfoddolwyr lleol yn trwsio'r llwybrau ac yn torri coed wrth Ffynnon Dyfnog.

## Ol-rifynnau o'r Bigwn

Tybed oes rhywwyn yn cadw hen gopiau o'r Bigwn - rydym yn beindio'r copiau yma ond mae gennym fylchau angen eu llenwi. Y copiau sydd ar goll yw Gorffennaf a Hydref 2017 a hefyd Mawrth ag Ebrill 2018.

Llawer o ddiolch

Nan Williams

Cymhorthydd Gwasanaeth Cwsmeriaid Llyfrgell a Siop Un Alwad Dinbych

Gwelliannau Cartref DBP G.Cymru

DBP

DBP Limited / Denbigh Building Plastics Limited
Tŷ DBP, Ystâd Ddiwydiannol Colomendy, Dinbych, LL16 5TA
Ffôn : 01745 818849

Dewch am baned ac i weld yr ystafelloedd arddangos newydd, modern a chyfoes.

Diolch i'n cwsmeriaid am eu cefnogaeth dros y blynyddoedd ac edrychwn ymlaen at gyfarfod cwsmeriaid hen a newydd.

Ffenestri UPVC ac Alwminiwm, Ffenestri Sash,
Drysau Alwminiwm Cyfansawdd, Drysau Plygu Dwyffordd Alwminiwm,
Ystafelloedd Gwydr, Toeau Cawell, Portshys, Cynnyrch Roofline,
Systemau Bargod Sych, Toeau Firestone a Guardian.

Does dim llawer o bêl-droed wedi cael ei chwarae yn ddiweddar gan dimoedd hŷn CPD Dinbych o ganlyniad i'r cyfyngiadau Covid newydd a gyflwynwyd dros y Nadolig a dechrau mis Ionawr gyda sawl gêm yn gorfod cael ei gohirio. Roedd hyn yn cynnwys y gêm ddarbi leol rhwng y Tîm Cyntaf a Llanelwy oedd i fod i gael ei chwarae ar Ddiwrnod San Steffan.

Dim ond dwy gêm mae'r Tîm Cyntaf wedi chwarae dros gyfnod y Nadolig, gyda gêm gyfartal siomedig yn erbyn Brickfield Rangers oddi cartref o 3-3. Roedd hi'n hollbwysig i Ddinbych ennill y gêm hon er mwyn cadw'r gystadleuaeth rhyngddyn nhw ag arweinwyr y gynghrair hyd yma sef Mold Alexandra, ond doedd hi ddim i fod y diwrnod hwnnw wrth i Ddinbych adael gôl gynnar i mewn. Daeth y goliau i Ddinbych wedi hynny gan Stuart Jones, Kristian Pierce (cic o'r smotyn) a Jake Walker.

Ar ôl seibiant dros y Nadolig, Dyffryn Nantlle oedd ymwelwyr Central Park yng ngêm wyth olaf Cwpan Cynghrair Lockstock Adran y Gogledd. Cafodd Aaron Jones a Josh Davies eu hymddangosiadau cyntaf i'r Tîm Cyntaf gan y Rheolwr Dewi Llion. Mae Jones sy'n 22 mlwydd oed yn gyn gôl-geidwad i Dîm Ieuenctid Everton o Ruallt, a Davies, sy'n 27 mlwydd oed wedi chwarae i'r Clwb yn nhymor 2017-2018. Yn ystod y cyfnod hwnnw, sgoriodd sawl gôl i Ddinbych pan gawson nhw eu tymor mwyaf llwyddiannus yn y gynghrair wrth iddyn nhw orffen yn ail yng Nghynghrair Ail Haen Huws Gray Cymru. 2-2 oedd hi erbyn y chwiban olaf yn erbyn Dyffryn Nantlle gyda goliau gan Jacob Barratt a Sam Jones i Ddinbych. Aeth y gêm i giciau o'r smotyn ac yn anffodus, Dyffryn Nantlle a enillodd o 5-4. Dyma'r drydedd gystadleuaeth gwpan i Ddinbych golli ar giciau o'r smotyn y tymor hwn.

Un gêm chwaraeodd yr Ail Dîm dros y mis diwethaf a honno'n golled o 4-0 gartref yn erbyn Llangefni. Agorodd y ffenest trosglwyddo ar Ionawr y 1af ac mae'r rheolwr Gethin Jones wedi ychwanegu ambell chwaraewr i'w garfan gan gynnwys Jack James sy'n dychwelyd o Lanelwy a Gruff Pierce o Henllan.

Mae tîm y Merched dan reolaeth Ellen Lawson yn parhau i frwydro gyda chymaint o frwdfrydedd ac ymrwymiad. Fydd hi ddim yn hir cyn iddyn nhw fachu eu pwyntiau cyntaf o'r tymor wrth i'w perfformiadau nhw wella yn ystod bob gêm gyda chymorth yr hyfforddwyr newydd Aled Davies a Liam Nash. Colli o 2-1 wnaethon nhw yn ystod eu gêm ddiwethaf yn erbyn Merched Llanfair gyda Catrin Davies yn sgorio i Ddinbych.

Lluniau dudalen gefn

## PROMENAD DINBYCH

Wrth feddwl, mae llefydd i fynd am dro, fel yr oedd perswâd arnom ychydig yn ôl, yn brin yma yn Ninbych. Heb fynd, ar y naill law, i grwydro strydoedd - syn or-gyfarwydd i rai- neu droedio dros gaeau gwlyb, ar y llaw arall, mae troeon cyfleus lled-drefol neu led-wledig yn go brin. Mae trigolion y trefi mawr sydd â pharciau a llwybrau at gerdded yn hamddenol, yn ffodus iawn. Mi fyddai cael llwybr ar hyd ymyl afon, fel sydd ganddynt yn Llanelwy, yn braf iawn. Does neb yma yn gorfod edrych dros ei ysgwydd rhag ofn cael ei drawo gan gar neu gerbyd na dim byd mwy na rhywun ar ei feic sydd heb ddysgu defnyddio'i gloch, os oedd ganddo un!
Ond na, rhaid peidio lladd gormod ar ein hardal chwaith. 'Rwy'n gwneud cam a'r dref, meddech. Wrth gwrs mae gennym lwybr newydd yma yn Ninbych a hwnnw yn llwybr braf, sydd eisoes yn cael cryn ddefnydd. Son yr ydwyf am y llwybr o'r Parc sydd wrth y meysydd chwarae, ag yn arwain tua chyfeiriad Rhuthun ag yn terfynu ar Ffordd Ystrad - Promenâd Dinbych. Mae hwn yn boblogaidd iawn erbyn hyn gan gŵn a phobol hen ag ifainc - ifainc iawn yw'r plant sydd yw gweld ar feiciau, rhai gyda'r olwynion ychwanegol yw cadw'n unionsyth. Mae 'r rhai yma yn werth eu gweld yn mwynhau'r rhyddid a gwyneb llyfn y ffordd i fedru cyflymu tipyn.
0 na bai'n bosib ymestyn y llwybr - cyn belled a Llanrhaeadr, neu Drefnant i'r cyfeiriad arall. Tybed na fyddai'n bosib gwasgu llathen neu ddwy oddi ar dir y gwahanol gwmnïau sy'n cartrefu tu cefn i Ffordd Y Rhyl a medru dod allan eto i wlad agored wrth y cylchdro mawr? Ffantasi llwyr fyddai hyn a chael mwynhau tawelwch a llonyddwch di-draffic, rhywbeth yn debyg i'r hyn sydd gan y parciau yn y trefi a'r dinasoedd mawr i'w gynnig - ond cofiwn fod manteision o gael byw yma yn Ninbych sydd ar goll ym mywyd y trefi mawr on 'dydyn.

CATalyst Systems - 01745 816611
Cymraeg
enquiries@catsystems.co.uk

Cyfrifaduron a Gliniadur (Trwsio a Gwerthu)
Sganwyr llaw - Systemau CCTV
Lloeren a hwb ar systemau rhyngrwyd 4G
Wi-Fi Adeilad i Adeilad www.catsatwales.co.uk
**Unit 15B Stad Colomendy, Dinbych LL16 5TA**

LLYFRAU
BOBI OWEN
AMRYWIAETH MAWR O LYFRAU CYMRAEG A SAESNEG
y diweddar R.M.Owen
ar gael yn Amgueddfa Dinbych, Lon Goch dydd Llun a dydd Iau 2—4
Gofynwn am gyfraniad i'r Amgueddfa

# Cinio Nadolig


Jacob yn rhannu'r cinio


Alun, Iona a Lilian yn brysur yn llewnwi 70 o fagiau gyda cinio a nwyddau nadolig. Ymgyrch Eglwys St.Thomas ar gyfer yr unig diwrnod dolig. Gwnaed hynny gyda charedigrwyd caffi 'Y Glass Onion'


Nerys Ann


Gaynor Morgan Rees


Gyda cymaint o waith dosbarth i ardal Dyffryn Clwyd roedd angen llawer iawn o yrwyr—Jill, Catheryn a Lyn


Y Maer Rhys Thomas


Pat



Nicola


Iona a Nigel


Emma


Gaynor


Janice


Ffenestr 'Y Glass Onion' a gafodd wobr gyntaf am yr Arddangosfa Ffenestr Siop Nadolig orau yn Dinbych

## Clwb Pel-droed Dinbych




Un o chwaraewyr ifanc newydd Dinbych, Aaron Jones o Ruallt, un o gyn chwaraewyr Tîm Ieuenctid Everton.



Sion Jones mewn tacl yn erbyn un o chwaraewyr Dyffryn Nantlle.




Kristian Pierce ar gefn un o ymosodwyr Dyffryn Nantlle.

## Taith gerdded Edward Llwyd



Ffynnon Dyfnog



Elusendai 1729

### Gwefan Y Bigwn

Cofiwch am wefan y Bigwn gyda ôl-rifynnau ar ffurf dogfennau PDF. Mae'r rhifynnau digidol yn dal yno hefyd.

Mae hefyd modd defnyddio y wefan i gysylltu â'r Bigwn. Gobeithiwn ychwanegu cyfleusterau eraill megis calendr digwyddiadau ac ati cyn bo hir.

I gael mynediad i'r wefan ewch i
www.ybigwn.cymru